*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Mawrth 2026** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol 2025-26** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) hyd at 28 Chwefror 2026.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Mae’r Mersey Internal Audit Agency (MIAA) wedi cael eu penodi i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno. Mae'r adroddiad yn cadarnhau'r gwaith a wnaed rhwng 1 Rhagfyr 2025 a 28 Chwefror 2026.

4 Yn ystod y cyfnod hwnnw, ymgymerodd MIAA â'r gwaith maes i asesu'r rheolaethau craidd mewn perthynas â fframwaith rheoli risg yr Awdurdod a bydd yn rhoi gwybod am y canfyddiadau yng nghyfarfod Mehefin 2026.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi’r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2025/26; a**
**ii) Nodi’r gwaith a gwblhawyd yn derfynol rhwng 1 Rhagfyr 2025 a 28 Chwefror 2026.**

**CEFNDIR**

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ganfyddiadau'r archwiliad. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

8 Cymeradwywyd Cynllun Archwilio 2025/26 gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 17 Mawrth 2025.

**GWYBODAETH**

9 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2025/26 ac yn cadarnhau bod yr adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol:

- Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol
- Gwaith maes y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)
- Cynllunio Busnes
- Rheoli Asedau Offer

10 Mae elfen derfynol cynllun archwilio 2025/26 yn ymwneud â threfniadau rheoli risg yr Awdurdod, ac mae'r gwaith hwn ar y gweill ar hyn o bryd ac adroddir yn ei gylch wrth y Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2026.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hwy. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses ar gyfer pennu cyllideb yn effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau ariannol allweddol yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod y taliadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol / Y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu ag MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n destun y prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn darparu cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath, ni fyddai'r Awdurdod yn ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau arwyddocaol a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |